

## Llywio Poen

*“Canys y mae’r loes a dderbynnir mewn ffordd dduwiol yn creu edifeirwch sydd yn arwain i iachawdwriaeth... ond y mae’r loes a dderbynnir mewn ffordd fydol yn peri marwolaeth.” (adn.10)*

### Beth am ddarllen 2 Corinthiaid 7:1–16 ac yna myfyrio

Yn ystod y dyddiau nesaf, rydym am edrych ar y ffordd y mae Duw yn medru ein cynorthwyo i wynebu’r boen sy’n cael ei achosi gan amgylchiadau amrywiol ein bywyd a’u troi i fod o fudd duwiol i’n henaid. Mae hwn yn rhywbeth y mae rhaid i bob un ohonom feddwl amdano oherwydd, yn hwyr neu hwyrach, bydd pob un ohonom yn gorfod delio gyda phoen mewn rhyw ffordd neu’i gilydd.

O’r adnodau a ddarllenwyd heddiw, yr ydym yn deall fod ymddygiad anysbyrdol y bobl hyn yn Corinth oedd wedi dod yn Gristnogion yn peri cryn boen a gofid i’r Apostol, ac felly, mewn galar braidd y mae’n ysgrifennu atynt gan bwysleisio’r angen iddynt newid. Mae ei eiriau ef yn siŵr o ddwyn poen i’w calonnau hwy ond o dan law Duw yr oedd wedi ei ddefnyddio i’w harwain i edifeirwch. Mae’r Apostol yn mynd ymlaen i esbonio mai un o’r gwahaniaethau rhwng paganiaid a Christnogion yw bod pobl sy’n credu yn medru troi at Dduw ynghanol eu poen gan ganiatáu iddo ef eu cyfarwyddo i ddiben adeiladol. Bydd y rhai hynny sy’n ceisio delio â’u poen ar lefel gynnal yn unig yn darganfod fod hyn yn siŵr o arwain at farwolaeth – nid ydynt yn cyrraedd unman. Mae’r rhai hynny sy’n gwahodd Duw i mewn i ganol eu poen yn darganfod fod hyn yn arwain at fywyd – i gyfoeth ysbrydol. Yn ôl un cyfieithydd o’r adnod, fe ddarllenwn: “Y mae’r boen y mae Duw yn cael yr hawl i’w llywio yn arwain at edifeirwch achubol ... lle mae’r boen y mae’r byd yn ei harwain bob amser yn dwyn marwolaeth.” Wrth inni agor ein hunain i ganiatáu i Dduw ddod i mewn i’n hamgylchiadau ni allwn droi’r hyn na fyddai ond dioddefaint disynnwyr i fod yn ddisgyblaeth ysbrydol. Yn wir, fe fyddwn yn adnabod ei gysur, ei nerth a’i fuddugoliaeth ef.

Efallai bod y boen yr ydym yn ei brofi yn dod o ffynhonnell ddrwg ond y cwestiwn i’r Cristion yw nid o ble ddaeth y boen ond i ble mae’r boen yma’n mynd â fi? Mae’r lle hwnnw’n cael ei reoli gan ein penderfyniad ni. A ydym am ganiatáu i loes arwain at fywyd neu at farwolaeth? Dyna’n dewis.

### Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Deut. 30:11–20; Phil. 1:12–18a

### Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth oedd y dewisiadau gafodd pobl Dduw gan Moses?
2. Sut mae Paul yn medru llawenhau hyd yn oed yn y carchar?

### Gweddi

Arglwydd Iesu Grist, cynorthwya fi i osod pob loes, pob poen, a phob anhawster yn dy law di. Bu i ti droi’r groes yn goron. Cynorthwya fi i droi’r croesau sydd yn dod i’m rhan yn fuddugoliaethau ysbrydol a hynny yn dy enw bendigedig. Amen.